------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 1, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Ionawr 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Cyfarfod cyhoeddus

09.30 - 11.00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Craffu Blynyddol ar Medr

09.30 - 11.00 (Tudalennau 1 - 18)

James Owen, Prif Swyddog Gweithredol, Medr

Giles Cutler, Prif Swyddog Ariannol, Medr

Medr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

11.00

### 3.1 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalen 19)

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

### 3.2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 20 - 24)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### 3.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 25 - 26)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

### 3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 27 - 29)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Medr

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.00

## Cyfarfod preifat

11.00 - 12.40

## 5 Craffu Blynyddol ar Medr - trafod y dystiolaeth

11.00 - 11.10

## Egwyl

11.10 - 11.20

## 6 Recriwtio a Chadw Athrawon - trafod yr adroddiad drafft

11.20 - 12.20 (Tudalennau 30 - 192)

**Dogfennau atodol:**

Draft report

## 7 Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr - ystyried yr ohebiaeth

12.20 - 12.30 (Tudalennau 193 - 195)

**Dogfennau atodol:**

Papur preifat (Saesneg yn unig)

## 8 Blaenraglen waith - trafodaeth ar sesiwn graffu Llywodraeth Cymru

12.30 - 12.40

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/2919/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

16 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy,

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod y ddogfen Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) 2020 Tystiolaeth a Synthesis Data sy'n darparu ein hadolygiad tair blynedd ar ôl gweithredu, wedi'i gosod a'i chyhoeddi heddiw. Mae hyn yn unol â'r ddyletswydd statudol a osodir ar Weinidogion Cymru o dan Adran 3 o'r Ddeddf. Mae Datganiad Ysgrifenedig hefyd wedi'i gyhoeddi i gyd-fynd â chyhoeddi'r adroddiad.

Mae'r adolygiad wedi rhoi cyfle i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r Ddeddf ar waith. Mae'r adroddiad yn cynnig asesiad cynhwysfawr o weithredu'r ddeddfwriaeth yn y meysydd y cytunwyd arnynt gyda'ch Pwyllgor yn ystod pasio'r ddeddfwriaeth:

- yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus;
- ymwybyddiaeth o'r gyfraith;
- agweddau at gosb gorfforol; a
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid.

Mae'n tynnu ar ystod amrywiol o ffynonellau data ac ymchwil, gan gynnwys data gweinyddol, data arolygon, a data a gasglwyd o gyfweliadau a grwpiau ffocws a gynhaliwyd drwy brosiectau ymchwil.

Mae croeso ichi gysylltu â mi os hoffech drafod y canfyddiadau ymhellach neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/2290/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd - y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy

Diolch am y drafodaeth yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar gyllideb ddrafft 2026-27 ar 27 Tachwedd. Amgaeir rhagor o wybodaeth ynghylch y meysydd y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor yn y cyfarfod.

<u>Nodyn technegol ar newid i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Cymraeg mewn Addysg</u>

Ceir gostyngiad o £2.426m i'r BEL Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2026–27, gyda'r gyllideb yn gostwng o £6.417m i £3.991m yn 2026–27. Nid yw'r gostyngiad hwn yn golygu toriad yn y cyllid ar gyfer y Gymraeg ym maes addysg. Mater o drosglwyddiad gweinyddol yn unig yw hyn, er mwyn symud cyllid Adnodd o fewn y BEL hwn i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu, yn dilyn newid yn y rôl rheoli nawdd ar gyfer Adnodd o 1 Ebrill 2025. Cafodd yr un trosglwyddiad ei roi ar waith yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2025–26 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Gydag Adnodd bellach ar waith yn llawn, a pherthnasau wedi eu sefydlu ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i drosglwyddo'r gyllideb hon er mwyn adlewyrchu'r berthynas barhaus ag Adnodd.

Ar y cyd ag elfennau eraill o gyllid o fewn y BEL Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer Adnodd, golyga hyn fod cyfanswm y cyllid ar gyfer Adnodd yn cyrraedd dros £4m yn 2026–27 er mwyn i'r cwmni barhau â'i waith yn comisiynu adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y cyfnod byr ers ei sefydlu, mae Adnodd wedi ehangu mynediad at adnoddau addysg dwyieithog, gan gefnogi'r cwricwlwm a chymwysterau wedi'u gwneud i Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Data cyfranogiad a deilliannau dysgwyr yn rhaglen Seren

Ym mis Mawrth 2026, bydd adroddiad diwedd blwyddyn ariannol yn asesu cynnydd rhaglen Seren tuag at y canlyniadau arfaethedig a amlinellir yn ei Theori Newid. Bydd yr adroddiad hwn yn sefydlu meincnod ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y tîm cyflawni newydd, y pecyn cymorth i ysgolion a cholegau, y canllawiau diwygiedig ar gyfer nodi dysgwyr, a'r rhaglen gymorth i unigolion sy'n dechrau gradd-brentisiaethau yn ystod 2026-27.

Bydd adroddiadau cynnydd misol yn cyflwyno data ar lefelau ymgysylltu ymhlith gwahanol grwpiau o ddysgwyr a gwahanol ranbarthau daearyddol, gan hwyluso nodi bylchau neu ardaloedd lle mae llai o gyfranogiad. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r tîm i fireinio strategaethau ymgysylltu lle bo angen. Yn ogystal, bydd yr adroddiadau yn rhoi gwybodaeth am effeithiolrwydd yr ymyriadau yn y rhaglen gyflawni, gan sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

Bydd yr adroddiad meincnod yn cael ei anfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Ebrill 2026, a bydd yr adroddiadau cynnydd dilynol yn cael eu hanfon yn unol ag amserlen cyfarfodydd y pwyllgor. Rwyf wedi cynnwys adroddiad cynnydd Tachwedd 2025 ar gyfer cam 3 (Blwyddyn 12 a 13) yn atodiad 1.

Mae adolygiad annibynnol o Academi Seren wedi dechrau. Bydd y gwerthusiad hwn yn archwilio cynnydd Seren ers yr asesiad blaenorol yn 2018 a bydd yn asesu a yw'r ymyriadau a weithredwyd o dan strategaeth weithredol newydd 2023 yn cyflawni'r nodau a amlinellwyd yn Theori Newid Seren. Bydd y canlyniadau yn dangos strategaethau effeithiol ac aneffeithiol, gan lywio gwelliannau i raglenni yn y dyfodol a chyfrannu at fireinio'r prosesau adrodd o dan y model cyflawni newydd.

Y pwysau ehangach sy'n wynebu'r sector addysg uwch

Dyma'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at yr heriau presennol sy'n wynebu prifysgolion:

- Gostyngiadau yn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol. Yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ar draws y DU yn y cyfnod yn union ar ôl y pandemig, fe wnaeth y niferoedd ostwng yn sylweddol yn 2024 ar ôl cyflwyno cyfyngiadau fisa newydd Llywodraeth y DU.
- Cystadleuaeth gynyddol am fyfyrwyr domestig. Wrth i nifer y myfyrwyr rhyngwladol ar draws y DU ostwng, mae mwy o gystadleuaeth am fyfyrwyr domestig. Mae prifysgolion mawreddog a thariff uwch wedi cynyddu'n sylweddol y cofrestriadau gan fyfyrwyr cartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi gwasgu ar rannau eraill o'r sector, gan gynnwys sawl prifysgol yng Nghymru.
- Effaith barhaus Brexit. Roedd prifysgolion Cymru yn arfer cael symiau sylweddol o gyllid strwythurol a buddsoddi gan yr UE, yn enwedig ar gyfer ymchwil ac arloesi, a dim ond yn 2023 y gwnaeth llinynnau olaf y cyllid hwn ddod i ben. Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn dangos bod prifysgolion Cymru wedi gweld gostyngiad o £33m mewn contractau cyllido ymchwil o'r UE yn 2023/24.
- Costau cynyddol, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a chostau Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer sefydliadau ôl-92. Yn wahanol i rannau eraill o'r sector addysg, nid yw Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid ychwanegol i dalu'r costau hyn.

- Er bod ffioedd dysgu bellach yn cynyddu gyda chwyddiant, mae hyn yn dilyn degawd o leihad mewn termau real. Er mai dim ond tua 10% o gyfanswm trosiant y sector yw cyllid Llywodraeth Cymru drwy Medr, rydym yn cydnabod bod hyn wedi lleihau mewn termau real yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Arbedion refeniw ar gyfer ysgolion carbon sero net

Mae wedi bod yn ofynnol i ysgolion newydd a ddyluniwyd ers mis Ionawr 2022 fod yn rhai Carbon Sero Net Ar Waith (NZCiO) sy'n golygu bod yr ynni ac felly'r carbon a ddefnyddir yn yr ysgol dros flwyddyn yn cael ei wrthbwyso gan ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn ddelfrydol ar y safle. Mae'r carbon a ddefnyddir i adeiladu'r ysgol, sef carbon ymgorfforedig, hefyd yn cael ei fesur, ac ar hyn o bryd y targed yw 600KgCO*2*/m*2*. Fe wnaeth ein hysgol NZCiO gyntaf, sef South Point Primary ym Mro Morgannwg, gyrraedd y nod hwn drwy osod rhesi o baneli ffotofoltäig a system storio ynni batri. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa gadarnhaol yn gyffredinol, gan fwydo'r hyn sydd dros ben i'r grid cenedlaethol.

Mae prosiectau fel Ysgol Uwchradd Pen y Dre ym Merthyr a Champws Mynydd Isa yn Sir y Fflint wedi'u cynllunio i gynhyrchu cymaint o ynni ag y maent yn ei ddefnyddio, gan leihau costau ynni gweithredol yn sylweddol. Er nad yw’r union ffigurau ar gyfer arbedion blynyddol yr ysgolion carbon sero net hyn wedi'u cyhoeddi eto, y disgwyliad yw eu bod yn agos at ddileu biliau ynni ac o bosibl yn creu refeniw posibl o allforio’r trydan dros ben i'r grid neu i gyfleusterau lleol. Yn achos Ysgol Uwchradd Pen y Dre, bydd cysylltiad preifat ag Ysbyty'r Tywysog Siarl yn golygu bod yr holl ynni dros ben a gynhyrchir yn yr ysgol yn cael ei ddefnyddio yn y gymuned leol er budd i'r ysgol a'r ysbyty.

Mae adnewyddu a datgarboneiddio adeiladau ysgol presennol hefyd yn golygu llai o gostau ynni. Mae ysgolion Cymru sy'n gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni a charbon sero net wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol mewn biliau ynni.

Ers 2009, mae prosiectau a gefnogir gan Salix Finance yng Nghymru wedi arbed £25.8 miliwn ar filiau ynni dros eu hoes, sy'n cyfateb i £1.3 miliwn bob blwyddyn ar draws yr ysgolion sy'n cymryd rhan. [salixfinance.co.uk]

Mae'r arbedion a geir o gyflwyno offer rheoli ynni uwch neu systemau rheoli adeiladau fel arfer yn cyflawni gostyngiad o 10% a fyddai'n cyfateb i rhwng £5,000 y flwyddyn a thua £15,000 y flwyddyn yn dibynnu ar faint yr ysgol. Gall ymyriadau pellach gynyddu'r arbediad hwn i oddeutu 40%. Gallai hyn fod cymaint â £60,000 ar gyfer ysgol uwchradd fawr. [energysparks.uk]

Gwerthusiad o raglen Taith

Cyhoeddwyd Gwerthusiad Interim o raglen Taith ym mis Mehefin 2025, yr ail gam mewn gwerthusiad tri cham o raglen Taith. Prif nod y gwerthusiad interim oedd adolygu’r perfformiad hyd yn hyn a llywio’r broses barhaus o gyflawni rhaglen Taith a buddsoddiadau/datblygiad polisi yn y dyfodol yn y maes hwn.

Mae'r dystiolaeth a drafodir yn yr adroddiad hwn yn dangos bod Taith wedi perfformio'n dda hyd yn hyn gyda lefelau uchel o foddhad gan bob grŵp rhanddeiliaid a chynnydd da yn erbyn targedau allbwn. Mae rhanddeiliaid wedi cael eu plesio’n arbennig gan gyflymder y gwaith cyflawni a graddfa'r cynnydd a wnaed mewn cyfnod mor fyr. Efallai mai'r prif gyflawniad yw llwyddiant y rhaglen wrth sicrhau ymgysylltiad gan grwpiau targed allweddol, yn benodol unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol a sefydliadau anhraddodiadol.

Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau bod Taith wedi targedu'r cymorth at y rhai na fyddent yn gallu elwa ar gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol fel arall. Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchu sawl cryfder: y ffordd arloesol y mae’r rhaglen wedi’i chynllunio, y ffocws strategol ar ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a’r gefnogaeth bersonol gref sy’n cael ei darparu gan y tîm cyflawni.

Mae'r rhaglen wedi cyflawni gwerth da i ragorol am arian ar draws y rhan fwyaf o'r dangosyddion a sefydlwyd. Roedd y dangosyddion tegwch yn arbennig o gryf, gyda chwech allan o wyth yn rhagorol, gan gynnwys y cyfrannau o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol ac unigolion dan anfantais sy'n ymwneud â rhaglen Taith.

Mae Wavehill wedi gwneud cyfres o argymhellion i gefnogi'r rhaglen i barhau i gyflawni. Mae'r argymhellion yn amrywio rhwng rhai y gellir eu gweithredu gan dîm cyflawni Taith a rhai a fyddai'n gofyn am gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru fel cyllidwr y rhaglen. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thîm gweithredol Taith i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi’r argymhellion ar waith.

Disgwylir i gam olaf y gwerthusiad annibynnol o raglen Taith gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2027.

Yn ogystal, disgwylir i'r gwerthusiad terfynol o drydydd cam rhaglen Cymru Fyd-eang gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2025. Roedd y cam hwn yn adeiladu ar ddau gam blaenorol y rhaglen a gafodd ei chyflwyno gan Brifysgolion Cymru a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Taith. Lansiwyd y cam cyntaf yn 2015. Comisiynwyd Wavehill ym mis Ionawr 2025 i gynnal y gwerthusiad terfynol o raglen grant Global Wales III. Bydd Crynodeb Gweithredol o'r gwerthusiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi ar wefan Taith yn unol ag ymrwymiad Taith i dryloywder.

Hyderaf fod yr ymatebion hyn yn rhoi eglurder pellach ar y cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor. Edrychwn ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor cyn Cyllideb Derfynol 2026-27.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Vikki Howells AS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

**Atodiad 1**

# CRYNODEB MIS TACHWEDD ACADEMI SEREN

SEREN ACADEMI • ACADEMY


Roedd mis Tachwedd yn fis prysur ar gyfer dysgwyr Cam 3 Seren, gyda blwyddyn 12 yn cymryd rhan yn Nosbarthiadau Meistr Her Academaidd yr Hydref a blwyddyn 13 yn paratoi ar gyfer cyfweliadau mewn prifysgolion blaenllaw yn y Rhaglen Mentora fel uchafbwyntiau.

## Dosbarthiadau Meistr Her Academaidd yr Hydref

Cafwyd **35 o sesiynau academaidd** dros gyfnod o bythefnos yn Her Academaidd yr Hydref eleni, ac roedd cynrychiolaeth o **bob un o'r 14 hwb** ymysg y dysgwyr. Cyflwynwyd **18 o sesiynau STEM** a **17 o sesiynau Dyniaethau**. Ar ben hyn, cafwyd **7 o sesiynau cyfrwng Cymraeg**. Roedd cynnydd sylweddol mewn presenoldeb o gymharu gyda 2024:


| Cyfanswm presenoldebau | Dysgwyr unigol | Cyfartaledd presenoldeb sesiynau |
|---|---|---|
| **3,619** | **1,084** | **103** |
| *Presenoldeb 2024: 2,133* | *Dysgwyr 2024: 666* | *Cyfartaledd 2024: 69* |

**Nifer o ddysgwyr yn mynychu fesul hwb:**




## Rhaglen Mentora 2025

Parwyd pob un o'r **410 o ddysgwyr** ar gyfer Rhaglen Mentora 2025 gyda mentor. Mae 73% o'r pariadau wedi cael o leiaf un sesiwn mentora, sy'n uwch na'r 42% yn 2024. Hyd hyn, mae pariadau mentoriaid a mentoreion wedi cwblhau **645 o sesiynau** eleni, gyda nifer o sesiynau paratoi cyfweliadau wedi eu trefnu dros yr wythnosau nesaf.




Mae **60+ o ddysgwyr** ar y Rhaglen Mentora wedi eu gwahodd i gyfweliad mewn prifysgol flaenllaw hyd hyn.

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Buffy Williams AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Senedd

senedd.plant@senedd.cymru

22 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy

Diolch ichi am lythyr y pwyllgor ar 1 Rhagfyr yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch cymorth iechyd meddwl amenedigol.

Yn fy llythyr blaenorol, cyfeiriais at yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl o'i strwythurau llywodraethiant a gweithredu mewnol i'w galluogi i fodloni gofynion y *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol.* Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau ac, o ganlyniad, penderfynwyd disodli'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol â Chymuned Ymarfer.

O ran arweinyddiaeth glinigol, mae swyddi arweiniol clinigol y rhaglen bellach yn cwmpasu pob maes iechyd meddwl, gyda rhaglen waith sy'n cyd-fynd â'r strategaeth.

Fel y nodwyd yn fy llythyr ym mis Medi, dyma'r swyddi:

- Seicolegydd clinigol (iechyd meddwl oedolion ac oedolion hŷn, amenedigol, anhwylderau bwyta)
- Nyrs iechyd meddwl gofrestredig (gofal acíwt a gofal mewn argyfwng)
- Seiciatrydd ymgynghorol (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed)
- Seicolegydd clinigol (therapïau seicolegol).

O ran eich cwestiynau am yr opsiynau a ystyriwyd a'r ymgysylltu a wnaed, y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl fyddai yn y sefyllfa orau i ymateb i'ch ymholiadau. Byddai Ciara Rogers, y cyfarwyddwr cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl, anabledd dysgu a niwroamrywiaeth yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru, yn hapus i ddarparu sesiwn friffio i'r pwyllgor. Pe bai hyn yn ddefnyddiol, gall fy swyddfa helpu i wneud y trefniadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth drosglwyddo o'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol i'r Gymuned Ymarfer, mae Hayley Thomas, sef prif weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r prif weithredwr arweiniol dros iechyd meddwl, wedi ysgrifennu at holl brif weithredwyr GIG Cymru i'w gwneud yn glir bod disgwyl i'r gwaith barhau fel arfer. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i'r llwybrau iechyd meddwl amenedigol, a ddatblygwyd gan y rhwydwaith gweithredu clinigol, barhau i lywio ymarfer.
- Rhaid i bob bwrdd iechyd gynorthwyo Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i ddarparu mynediad at ofal iechyd meddwl amenedigol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion mewnol.
- Blaenoriaethu bodloni safonau iechyd meddwl amenedigol y Coleg Seiciatreg Brenhinol ac adrodd am y gwaith o'u cyflwyno i Perfformiad a Gwella GIG Cymru bob chwarter. Bydd hyn yn galluogi i unrhyw fylchau gael eu nodi a'u datrys.

O ran yr uned Seren newydd yng Nghaer, rydym yn disgwyl iddi agor yn raddol gan ddechrau'r mis hwn. O ran Uned Gobaith, gallaf gadarnhau mai'r bwriad yw iddi barhau yn Ysbyty Tonna am y dyfodol rhagweladwy.

Yn gywir



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

7 Ionawr 2026

Buffy Williams MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Gadeirydd,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

Diolch am eich llythyr (dyddiedig 10 Rhagfyr 2025) yn gofyn am ragor o wybodaeth am restrau aros ar gyfer lleoedd myfyrwyr mewn colegau addysg bellach.

Fel y nodwyd yn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor, cynyddodd cyfranogiad yn addysg amser llawn y colegau addysg bellach ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Mae hyn oherwydd bod nifer fwy o ddysgwyr yn y demograffeg oedran 16-19, a hefyd oherwydd bod cyfran fwy o'r dysgwyr hynny'n mynychu colegau addysg bellach.

Gan ragweld y pwysau ariannol sylweddol a fyddai'n deillio o'r cynnydd hwn mewn cyfranogiad, cytunodd Llywodraeth Cymru i'n cais am gyllid ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Drwy hyn, bu modd i Medr neilltuo £21m i gydnabod cost y cynnydd i gyfranogiad mewn addysg bellach. Tra'n bod wrthi'n pennu'n derfynol y symiau a fyddai'n cael eu dyrannu i sefydliadau o'r £21m hwn (ar sail data wedi'u dilysu), gweithredodd Medr ar unwaith i sicrhau pob coleg y byddai'n derbyn isafswm o 5% o gynnydd i'w ddyraniad craidd amser llawn, er mwyn lliniaru'r risg o restrau aros ar gyfer lleoedd mewn colegau.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau penodol, adroddodd pum coleg fod ganddynt restrau aros ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ers cadarnhau'r £21m ychwanegol, mae'r colegau hynny wedi bod yn mynd ati'n weithredol i leoli dysgwyr neu eu cyfeirio i ddarpariaeth amgen. Nid ydym ond yn ymwybodol o un coleg, Coleg Cambria, sydd yn dal mewn cysylltiad â 60 o ddysgwyr heb eu lleoli, sy'n ceisio mynediad at ddarpariaeth lefel 1.



2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

www.medr.cymru

Mae Coleg Cambria wedi cyfeirio cyfleoedd eraill i sylw'r dysgwyr hyn, fel Twf Swyddi Cymru+, ac yn parhau i gynnig lleoedd wrth iddynt ddod ar gael. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Choleg Cambria i ganfod atebion posibl er mwyn lleoli'r dysgwyr hyn.

Mae'n werth nodi, wrth reoli ymrestriadau dysgwyr, ac er mwyn osgoi rhestrau aros, fod pob coleg wedi dweud wrthym nad yw dysgwyr bob amser yn cael eu lleoli ar eu dewis cyntaf o ran cwrs. Gall hyn fod oherwydd cymhwystra dysgwyr, gyda cholegau'n ailgyfeirio dysgwyr i gyrsiau mwy addas, ond bu galw digynsail hefyd am rai cyrsiau, fel adeiladu lefel 1 a 2, lle mae capasiti gweithdai yn cyfyngu ar gyfanswm y lleoedd sydd ar gael. Lle ceir problemau o ran capasiti, mae colegau wedi gweithio gyda dysgwyr i'w lleoli ar gyrsiau eraill priodol.

Wrth droi ein golygon at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, fel yr amlygwyd yn ein sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor, rhagwelwn y bydd pwysau ariannol sylweddol yn deillio o gynnydd i'r cyfranogiad mewn addysg uwch. Mae gwaith modelu cynnar ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn awgrymu y gallai colegau gofrestru dros 3,000 o ddysgwyr uwchlaw'r lefelau cyllido disgwyliedig. Mae hyn yn cyfateb i tua £30m.

Nid yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad, fel y cafwyd yn 2025-26. Gan hynny, ni fydd gan Medr y capasiti yn ystod y flwyddyn i ymateb yn yr un modd i'r cynnydd mewn cyfranogiad ag a wnaeth yn 2025/26, drwy ddarparu £21m yn ychwanegol. Ar ôl cyhoeddi ein rhagdybiaethau cyllido ar gyfer 2026-27, mae Medr wedi cynnal nifer o drafodaethau â Phenaethiaid a Chyfarwyddwyr Cyllid Colegau, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pob coleg yn rhagweld y bydd ganddo restrau aros ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, os na cheir cyllid ychwanegol yn 2026/27.


Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a cholegau addysg bellach i gael dealltwriaeth well o oblygiadau posibl y pwysau ariannol hyn, os na ddaw cyllid ychwanegol i'r amlwg.

Yn gywir,

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



**James Owen**
Prif Weithredwr

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon